Methodoleg, canlyniadau a dadansoddiadau'r arolwg o garcharorion

# CEF Caerdydd

Ionawr 2024

# Cynnwys


Methodoleg yr arolwg o garcharorion ................................................................ 3

Ymatebion i'r arolwg ........................................................................................ 4

Canlyniadau a dadansoddiadau'r arolwg o garcharorion .................................. 5

# Methodoleg yr arolwg o garcharorion

Cynhelir arolwg cynrychioliadol o'r carcharorion ar ddechrau pob arolygiad, ac mae'r canlyniadau'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad.

Datblygodd ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF holiadur hunan-lenwi ym mis Tachwedd 2023 i gefnogi *Disgwyliadau* Arolygiaeth Carchardai EF. Mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau wedi'u strwythuro sy'n ymdrin â 'thaith' y carcharor, o dderbyn i ryddhau, ynghyd â chwestiynau demograffig a chefndir sy'n ein galluogi i gymharu ymatebion o wahanol is-grwpiau o boblogaeth y carcharorion. Mae tri chwestiwn agored hefyd ar ddiwedd yr holiadur sy'n caniatáu i garcharorion fynegi yn eu geiriau eu hunain yr hyn sydd fwyaf cadarnhaol a negyddol am y carchar. Gwneir dadansoddiad ansoddol o'r sylwadau ysgrifenedig hyn gan ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF ac fe'i defnyddir gan arolygwyr.

## Samplu

Ar ddiwrnod yr arolwg, mae ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF yn creu sampl ar hap ar sail allbrint o boblogaeth carcharorion P-NOMIS, a drefnir yn ôl lleoliad y celloedd. Gan ddefnyddio cyfrifiad pŵer, mae ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF yn cyfrifo maint y sampl lleiaf sydd ei angen i sicrhau bod canfyddiadau'r arolwg yn gynrychioliadol o holl boblogaeth y sefydliad. Mae'r fformiwla a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad yn cymryd y bydd cyfradd ymateb o 75% (65% mewn sefydliadau agored), a chyfwng hyder o 95% gyda lwfans ansicrwydd o 7%.

## Dosbarthu a chasglu holiaduron

Roedd ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF wedi dosbarthu a chasglu'r holiaduron yn bersonol. Cafodd dalen flaen ei chynnwys gyda'r holiadur, a oedd yn esbonio pwrpas yr arolwg ac nad oedd rhaid i bobl gymryd rhan. Rhoddwyd sicrwydd ynghylch cyfrinachedd, aros yn ddienw a storio a chadw'r data. Cafodd y carcharorion amlen a oedd yn gallu cael ei selio i gadw'r holiadur ar ôl iddyn nhw ei lenwi, a chawsant wybod pryd y byddai'r ymchwilwyr yn dychwelyd i'w gasglu. Oherwydd y mesurau cadw pellter cymdeithasol, nid oedd modd i'r ymchwilwyr gael cydsyniad ar lafar gan garcharorion, ac felly roedd llenwi a dychwelyd holiaduron yn cael ei ystyried yn gydsyniad. Roedd yr holiadur ar gael mewn 14 iaith.

## Ymatebion i’r arolwg

Adeg yr arolwg ar 29 Ionawr 2024, 743 oedd poblogaeth y carcharorion yn CEF Caerdydd. Gan ddefnyddio’r dull sampl a ddisgrifiwyd uchod, dosbarthwyd holiaduron i 202 o garcharorion. Cafodd cyfanswm o 171 o holiaduron eu llenwi, sy'n gyfradd ymateb o 85%.

Mae adroddiad llawn yr arolygiad ar gael ar ein gwefan yn: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/

# Canlyniadau a dadansoddiadau’r arolwg o garcharorion

Ar y tudalennau canlynol rydym yn cyflwyno holl ganlyniadau’r arolwg, a ddilynir gan nifer o ddadansoddiadau cymharol ar gyfer CEF Caerdydd. Ar gyfer y dadansoddiadau cymharol, lle bo’n berthnasol, ail-luniwyd pob cwestiwn gan ddefnyddio’r prawf Chi-sgwâr (neu brawf union Fisher os oes llai na phum cyfrifiad disgwyliedig mewn cell) i fformat ‘ie/na’ deuaidd a chymharwyd yr ymatebion cadarnhaol. Mae ymatebion coll wedi cael eu heithrio o’r holl ddadansoddiadau, ac mae ymatebion gan is-grŵp o’r sampl wedi cael eu cofnodi ar gyfer rhai cwestiynau (fel mae’r data’n dangos).

## Ymatebion gan CEF Caerdydd 2024 o’u cymharu ag ymatebion arolygon eraill Arolygiaeth Carchardai EF

**Gwneir y dadansoddiadau hyn ar ddata crynodol o holl gwestiynau’r arolwg. Gan ein bod wedi bod yn defnyddio fersiwn diwygiedig o’r holiadur ers mis Mai 2021, nid oes gennym ddata cymharol llawn ar gyfer pob cwestiwn eto.**

- Mae ymatebion arolwg gan CEF Caerdydd yn 2024 yn cael eu cymharu ag ymatebion arolwg gan garchardai lleol eraill a gafodd eu harolygu ers mis Mai 2021.
- Mae ymatebion arolwg gan CEF Caerdydd yn 2024 yn cael eu cymharu ag ymatebion arolwg gan garchardai lleol eraill a gafodd eu harolygu ers mis Tachwedd 2023.
- Mae ymatebion arolwg gan CEF Caerdydd yn 2024 yn cael eu cymharu ag ymatebion arolwg gan CEF Caerdydd yn 2019.

## Cymharu is-boblogaethau carcharorion a hunan-adroddwyd yn CEF Caerdydd 2024

**Gwneir y dadansoddiadau hyn ar ddata crynodol o gwestiynau dethol yr arolwg yn unig.**

- Mae ymatebion carcharorion a ddywedodd eu bod ar remánd neu’n aros am ddedfryd yn cael eu cymharu â’r rhai sydd wedi’u dedfrydu.
- Ymatebion carcharorion dan 25 oed o’u cymharu ag ymatebion carcharorion 25 oed a hŷn.
- Ymatebion carcharorion o bob grŵp ethnig arall o’u cymharu ag ymatebion carcharorion gwyn.
- Ymatebion carcharorion o dramor o’u cymharu ag ymatebion gwladolion Prydeinig/y DU.
- Ymatebion carcharorion sy’n Fwslimiaid o’u cymharu ag ymatebion carcharorion nad ydynt yn Fwslimiaid.
- Ymatebion y carcharorion a ddywedodd fod ganddyn nhw anabledd o’u cymharu ag ymatebion y carcharorion na ddywedodd hynny.
- Ymatebion y carcharorion a ddywedodd fod ganddyn nhw broblemau iechyd meddwl o’u cymharu ag ymatebion y carcharorion na ddywedodd hynny.

- Mae ymatebion y carcharorion a ddywedodd eu bod wedi bod mewn gofal awdurdod lleol yn cael eu cymharu ag ymatebion y carcharorion na ddywedodd hynny.

Sylwch mai dim ond os oes o leiaf 10 ymateb ym mhob grŵp cymharu y byddwn yn cynnal dadansoddiad cymaryddion o fewn y carchar, a mae'n rhaid i hynny hefyd gynrychioli o leiaf 10% o'r holl ymatebion.

Yn y dadansoddiadau cymharol, dangosir gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol drwy ddefnyddio graddliwio. Mae'r trothwy tebygolrwydd (h.y. gwerth-p) wedi'i osod ar 0.01 sy'n golygu bod tebygolrwydd o 1% mai hap a damwain sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y ddau grŵp. Defnyddir y lliw gwyrdd i ddangos canlyniadau sy'n llawer mwy cadarnhaol, a defnyddir y lliw glas i ddangos canlyniadau sy'n llawer mwy negyddol. Defnyddiwyd lliw oren i ddangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol o ran demograffeg neu fanylion cefndir eraill. Os nad oes unrhyw liw, nid yw'r gwahaniaeth rhwng y ddau ganlyniad yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol, ac efallai ei fod wedi digwydd drwy hap a damwain. Mae'r lliw llwyd yn dangos nad oes data cymharol dilys ar gael ar gyfer y cwestiwn hwnnw.

Mae cwestiynau wedi'u hidlo yn cael eu mewnoli ac yn cael eu rhagflaenu gan esboniad mewn italig o sut mae'r hidlydd wedi cael ei ddefnyddio. Yn y dadansoddiadau cymharol, mae canrannau ar gyfer cwestiynau wedi'u hidlo yn cyfeirio at nifer yr ymatebwyr sydd wedi'u hidlo i'r cwestiwn hwnnw. Ar gyfer pob cwestiwn arall, mae canrannau'n cyfeirio at gyfanswm yr ymatebion dilys i'r cwestiwn.

## Gwybodaeth gefndir

**1.1 Ar ba adain neu floc tŷ rydych chi'n byw ar hyn o bryd?**

| | |
|---|---|
| A1 (Byw heb sylweddau dan gymhelliant) | 5 (3%) |
| Adain A | 32 (19%) |
| B1 (Cymuned Therapiwtig) | 8 (5%) |
| Adain B | 33 (19%) |
| Adain C | 11 (6%) |
| Adain D | 15 (9%) |
| Adain E | 19 (11%) |
| Adain F | 42 (25%) |
| Gofal Iechyd | 5 (3%) |
| Gwahanu | 1 (1%) |

**1.2 Faint yw eich oed?**

| | |
|---|---|
| O dan 21 oed | 9 (5%) |
| 21 - 24 | 19 (11%) |
| 25 - 29 | 25 (15%) |
| 30 - 39 | 73 (43%) |
| 40 - 49 | 29 (17%) |
| 50 - 59 | 13 (8%) |
| 60 - 69 | 2 (1%) |
| 70 neu hŷn | 0 (0%) |

**1.3 Beth yw eich grŵp ethnig?**

| | |
|---|---|
| Gwyn - Seisnig / Cymreig / Albanaidd / Gwyddelig (Gogledd) / Prydeinig | 120 (71%) |
| Gwyn - Gwyddelig | 0 (0%) |
| Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 5 (3%) |
| Gwyn - Roma | 0 (0%) |
| Gwyn - unrhyw gefndir Gwyn arall | 12 (7%) |
| Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd | 6 (4%) |
| Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd | 1 (1%) |
| Cymysg - Gwyn ac Asiaidd | 3 (2%) |
| Cymysg - unrhyw gefndir ethnig Cymysg arall | 1 (1%) |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd | 1 (1%) |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd | 6 (4%) |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd | 1 (1%) |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd | 0 (0%) |
| Asiaidd - Unrhyw gefndir Asiaidd arall | 2 (1%) |
| Du neu Ddu Prydeinig - Caribïaidd | 5 (3%) |
| Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd | 2 (1%) |
| Du - Cefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall | 1 (1%) |
| Arabaidd | 1 (1%) |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 3 (2%) |

**1.4 Ers faint ydych chi wedi bod yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Llai na 6 mis | 102 (61%) |
| 6 mis neu fwy | 66 (39%) |

**1.5 Ydych chi'n bwrw dedfryd ar hyn o bryd?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 46 (27%) |
| Ydw – ar adalw | 26 (15%) |
| Na – ar remánd neu'n aros am ddedfryd | 97 (57%) |
| Na - mewnfudwr a gedwir | 1 (1%) |

**1.6 Pa mor hir yw eich dedfryd (heb gynnwys rhyddhau cynnar)?**

| | |
|---|---|
| Llai na 6 mis | 17 (10%) |
| 6 mis i lai na blwyddyn | 23 (14%) |
| 1 flwyddyn i lai na 4 blynedd | 19 (11%) |
| 4 blynedd i lai na 10 mlynedd | 9 (5%) |
| 10 blynedd neu fwy | 3 (2%) |
| IPP (dedfryd amhenodol er mwyn gwarchod y cyhoedd) | 0 (0%) |
| Oes | 1 (1%) |
| Ddim yn bwrw dedfryd ar hyn o bryd | 98 (58%) |

## Diwrnod cyntaf yn y carchar hwn

**2.1 Pan wnaethoch chi gyrraedd y carchar hwn, faint o amser wnaethoch chi ei dreulio yn y dderbynfa?**

| | |
|---|---|
| Llai na 2 awr | 78 (46%) |
| 2 awr neu fwy | 73 (43%) |
| Ddim yn cofio | 19 (11%) |

**2.2 Pan roeddech chi'n cael eich chwilio yn y dderbynfa, a gafodd hyn ei wneud mewn ffordd barchus?**

| | |
|---|---|
| Do | 125 (74%) |
| Na | 33 (19%) |
| Ddim yn cofio | 12 (7%) |
| Ni chefais fy chwilio yn y dderbynfa | 0 (0%) |

**2.3 Yn gyffredinol, sut cawsoch chi eich trin yn y dderbynfa?**

| | |
|---|---|
| Da iawn | 47 (28%) |
| Eithaf da | 82 (49%) |
| Eithaf gwael | 25 (15%) |
| Yn wael iawn | 9 (5%) |
| Ddim yn cofio | 5 (3%) |

**2.4 Pan gyrhaeddoch chi yma am y tro cyntaf, a oedd gennych un o'r problemau canlynol?**

| | Oedd, a helpodd y staff | Oedd, ond wnaeth y staff ddim helpu | Nid oedd gennyf y broblem hon |
|---|---|---|---|
| Teimlo'n isel | 36 (23%) | 53 (34%) | 69 (44%) |
| Teimlo fel lladd eich hun | 13 (10%) | 13 (10%) | 98 (79%) |
| Angen eich amddiffyn rhag carcharorion eraill | 6 (5%) | 7 (6%) | 111 (90%) |

**2.5 Pan gyrhaeddoch chi yma am y tro cyntaf, oeddech chi'n gallu siarad ag aelod o staff yn breifat am unrhyw broblemau oedd gennych chi?**

| | |
|---|---|
| Oeddwn | 68 (44%) |
| Na | 59 (38%) |
| Doedd gen i ddim problemau pan wnes i gyrraedd am y tro cyntaf | 27 (18%) |

**2.6 Wnaethoch chi weld rhywun o ofal iechyd yn y dderbynfa?**

| | |
|---|---|
| Do | 127 (77%) |
| Na | 32 (19%) |
| Ddim yn cofio | 7 (4%) |

## Noson gyntaf a sesiwn gynefino

**3.1 Cyn i chi gael eich cloi ar eich noson gyntaf yma, a gawsoch chi gynnig unrhyw un o'r pethau canlynol?**

| | Do | Na | Ddim yn cofio |
|---|---|---|---|
| Amnewid nicotin (gan gynnwys fêps) | 149 (90%) | 12 (7%) | 4 (2%) |
| Pethau ymolchi | 129 (81%) | 29 (18%) | 1 (1%) |
| Cawod | 95 (59%) | 61 (38%) | 4 (3%) |
| Galwad ffôn am ddim | 120 (74%) | 40 (25%) | 3 (2%) |
| Rhywbeth i'w fwyta | 135 (84%) | 23 (14%) | 2 (1%) |
| Cyfle i siarad â Gwrandäwr neu'r Samariaid | 67 (41%) | 82 (51%) | 13 (8%) |
| Cefnogaeth gan garcharor arall (e.e. Rhywun o'r tu mewn neu gynrychiolydd carcharorion)? | 70 (44%) | 72 (45%) | 17 (11%) |

**3.2 Ar eich noson gyntaf yn y carchar hwn, pa mor lân neu fudr oedd eich cell?**

Yn lân iawn ........................................ 7 (4%)
Eithaf glân ........................................ 60 (36%)
Eithaf budr ........................................ 50 (30%)
Yn fudr iawn ........................................ 46 (27%)
Ddim yn cofio ........................................ 5 (3%)

**3.3 Oeddech chi'n teimlo'n ddiogel ar eich noson gyntaf yma?**

Oeddwn ........................................ 106 (64%)
Na ........................................ 49 (30%)
Ddim yn cofio ........................................ 11 (7%)

**3.4 A roddwyd rhifau ar eich ffôn PIN o fewn 24 awr?**

Do ........................................ 47 (28%)
Na ........................................ 113 (67%)
Ddim yn cofio ........................................ 8 (5%)

**3.5 Yn ystod eich diwrnodau cyntaf yma, gawsoch chi y pethau hyn:**

| | Do | Na | Ddim yn cofio |
|---|---|---|---|
| Eitemau o siop/ ffreutur y carchar | 62 (38%) | 96 (59%) | 6 (4%) |
| Mynediad at ddillad glân a oedd yn addas i chi | 101 (62%) | 62 (38%) | 1 (1%) |
| Credyd ffôn PIN | 115 (69%) | 50 (30%) | 1 (1%) |
| Eich eiddo personol | 54 (33%) | 102 (63%) | 7 (4%) |

**3.6 A oedd eich sesiwn gynefino yn cynnwys popeth yr oedd angen i chi ei wybod am y carchar hwn?**

Oedd ........................................ 74 (45%)
Na ........................................ 66 (40%)
Heb gael sesiwn gynefino ........................................ 24 (15%)

## Ar yr adain

**4.1 Ydych chi mewn cell ar eich pen eich hun?**

Ydw ........................................ 50 (30%)
Na, rydw i mewn cell neu ddortur sy'n cael ei rhannu .............. 117 (70%)

**4.2 Ydy cloch eich cell yn cael ei hateb o fewn 5 munud fel arfer?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 74 (45%) |
| Na | 77 (47%) |
| Ddim yn gwybod | 13 (8%) |
| Nid oes gennyf gloch galw yn y gell | 0 (0%) |

**4.3 Atebwch y cwestiynau hyn am yr adain neu'r bloc tŷ yr ydych yn byw ynddo ar hyn o bryd:**

| | Ie | Na | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Oes gennych chi ddigon o ddillad glân sydd yn eich ffitio? | 89 (54%) | 74 (45%) | 2 (1%) |
| Allwch chi gael cawod bob dydd os ydych chi eisiau un? | 154 (93%) | 10 (6%) | 1 (1%) |
| Allwch chi gael dillad gwely glân bob wythnos os ydych chi eisiau hynny? | 136 (83%) | 25 (15%) | 2 (1%) |
| Allwch chi gael deunyddiau glanhau cell bob wythnos os ydych chi eisiau hynny? | 113 (69%) | 45 (27%) | 6 (4%) |
| Allwch chi gael eich eiddo sydd wedi'i storio yn brydlon, os oes ei angen arnoch? | 40 (25%) | 85 (52%) | 37 (23%) |

**4.4 A yw fel arfer yn ddigon tawel ar yr adain neu'r bloc tai i chi ymlacio:**

| | Ydy | Na |
|---|---|---|
| Yn ystod y dydd? | 87 (55%) | 71 (45%) |
| Gyda'r nos? | 99 (63%) | 58 (37%) |

**4.5 Fel arfer, pa mor lân neu fudr yw'r ardaloedd cymunol yn eich adain neu floc tŷ?**

| | Yn lân iawn | Eithaf glân | Eithaf budr | Yn fudr iawn |
|---|---|---|---|---|
| Landin a grisiau | 52 (32%) | 91 (55%) | 15 (9%) | 6 (4%) |
| Ardaloedd cymdeithasau | 49 (31%) | 94 (59%) | 13 (8%) | 4 (3%) |
| Bwyty | 56 (35%) | 82 (51%) | 17 (10%) | 7 (4%) |
| Cawodydd | 44 (27%) | 76 (47%) | 30 (19%) | 12 (7%) |
| Iard ymarfer corff | 25 (15%) | 66 (41%) | 40 (25%) | 31 (19%) |

**4.6 Os ydych chi wedi bod ar ACCT yn y carchar hwn, oeddech chi'n teimlo bod y staff yn gofalu amdanoch chi?**

| | |
|---|---|
| Oeddwn | 24 (15%) |
| Na | 35 (22%) |
| Heb fod ar ACCT yn y carchar hwn | 100 (63%) |

**4.7 Pa mor hawdd neu anodd yw hi i chi siarad â Gwrandäwr, os oes angen i chi wneud hynny?**

| | |
|---|---|
| Hawdd iawn | 38 (23%) |
| Eithaf hawdd | 40 (24%) |
| Eithaf anodd | 20 (12%) |
| Anodd iawn | 11 (7%) |
| Ddim yn gwybod | 54 (33%) |
| Does dim Gwrandawyr yn y carchar hwn | 2 (1%) |

## Bwyd a ffreutur

**5.1 Beth yw ansawdd y bwyd yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Da iawn | 5 (3%) |

Eithaf da ........................................................................ 62 (39%)
Eithaf gwael ........................................................................ 42 (26%)
Gwael iawn ........................................................................ 51 (32%)

**5.2 Ydych chi'n cael digon i'w fwyta amser bwyd?**

Bob amser ........................................................................ 15 (9%)
Y rhan fwyaf o'r amser ........................................................................ 45 (27%)
Weithiau ........................................................................ 47 (28%)
Byth ........................................................................ 60 (36%)

**5.3 Ydy'r siop/cantîn yn gwerthu'r pethau sydd eu hangen arnoch?**

Ydy ........................................................................ 106 (65%)
Na ........................................................................ 43 (26%)
Ddim yn gwybod ........................................................................ 15 (9%)

**5.4 Allwch chi ddefnyddio catalogau/darparwyr eraill i brynu'r pethau sydd eu hangen arnoch?**

Gallaf ........................................................................ 123 (75%)
Na ........................................................................ 19 (12%)
Ddim yn gwybod ........................................................................ 22 (13%)

**Perthynas gyda staff**

**6.1 Ydy'r rhan fwyaf o'r staff yma yn eich trin chi â pharch?**

Ydyn ........................................................................ 117 (71%)
Na ........................................................................ 47 (29%)

**6.2 Petai gennych chi broblem, fyddech chi'n gallu dweud wrth unrhyw staff yma?**

Byddwn ........................................................................ 118 (73%)
Na ........................................................................ 44 (27%)

**6.3 Yn ystod yr wythnos diwethaf, a oes unrhyw aelod o'r staff wedi gofyn i chi sut ydych chi?**

Do ........................................................................ 66 (40%)
Na ........................................................................ 99 (60%)

**6.4 Pa mor ddefnyddiol yw eich swyddog dynodedig (gweithiwr allweddol)?**

Defnyddiol iawn ........................................................................ 27 (17%)
Eithaf defnyddiol ........................................................................ 35 (21%)
Ddim yn ddefnyddiol iawn ........................................................................ 11 (7%)
Ddim yn ddefnyddiol o gwbl ........................................................................ 16 (10%)
Dim swyddog penodedig (gweithiwr allweddol) ........................................................................ 74 (45%)

**6.5 A ymgynghorir â charcharorion yma am bethau fel bwyd, ffreutur neu faterion yn ymwneud a'r adain?**

Gwneir, ac weithiau mae pethau'n newid ........................................................................ 28 (17%)
Gwneir, ond dydy pethau ddim yn newid ........................................................................ 39 (24%)
Na ........................................................................ 55 (34%)
Ddim yn gwybod ........................................................................ 41 (25%)

**6.6 Petai chi eisiau gwneud hynny, allwch chi siarad â rheolwyr, llywodraethwyr neu gyfarwyddwyr yn y carchar hwn?**

Gallaf ........................................................................ 36 (22%)
Na ........................................................................ 66 (40%)
Ddim yn gwybod ........................................................................ 62 (38%)

**6.7 Os ydych chi wedi rhannu problem gyda rheolwr, llywodraethwr neu gyfarwyddwr, a wnaethon nhw geisio eich helpu chi?**

| | |
|---|---|
| Do | 36 (22%) |
| Na | 43 (27%) |
| Ddim wedi rhannu problem | 83 (51%) |

## Ffydd

**7.1 Ydych chi wedi siarad â thîm y Gaplaniaeth yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Do | 100 (61%) |
| Na | 64 (39%) |

**7.2 Ydych chi'n gallu siarad â thîm y Gaplaniaeth yn breifat, os ydych chi eisiau gwneud hynny?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 97 (59%) |
| Na | 14 (9%) |
| Ddim yn gwybod | 53 (32%) |

**7.3 Beth yw eich crefydd?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim crefydd | 76 (46%) | Islam | 28 (17%) |
| Cristnogaeth | 48 (29%) | Sikhiaeth | 1 (1%) |
| Bwdhaeth | 1 (1%) | Paganiaeth | 1 (1%) |
| Hindŵaeth | 0 (0%) | Rastaffariaeth | 0 (0%) |
| Iddewiaeth | 0 (0%) | Arall | 10 (6%) |

**7.4 Ydych chi'n gallu mynychu gwasanaethau crefyddol, os ydych chi'n dymuno gwneud hynny?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 73 (45%) |
| Na | 6 (4%) |
| Ddim yn gwybod | 8 (5%) |
| Amherthnasol (dim crefydd) | 76 (47%) |

**7.5 A yw eich credoau crefyddol yn cael eu parchu yma?**

| | |
|---|---|
| Ydyn | 53 (32%) |
| Na | 23 (14%) |
| Ddim yn gwybod | 12 (7%) |
| Amherthnasol (dim crefydd) | 76 (46%) |

## Cyswllt â theulu a ffrindiau

**8.1 Pa mor aml ydych chi wedi gallu gweld eich teulu a'ch ffrindiau yn ystod <u>y mis diwethaf</u>:**

| | Bob wythnos | Dwy neu dair gwaith yr wythnos | Unwaith | Ddim o gwbl | Ddim yn berthnasol i mi |
|---|---|---|---|---|---|
| Wyneb yn wyneb (ymweliad â'r carchar)? | 33 (21%) | 32 (20%) | 26 (17%) | 44 (28%) | 22 (14%) |
| Drwy alwad fideo? | 6 (5%) | 8 (7%) | 9 (7%) | 69 (56%) | 31 (25%) |

**8.2 A yw ymweliadau fel arfer yn dechrau ac yn gorffen ar amser?**

| | |
|---|---|
| Ydyn | 46 (28%) |
| Na | 59 (36%) |
| Ddim yn gwybod | 41 (25%) |
| Ddim yn berthnasol i mi | 17 (10%) |

**8.3 A yw eich ymwelwyr yn cael eu trin yn barchus gan staff fel arfer?**

| | |
|---|---|
| Bob amser | 33 (21%) |
| Y rhan fwyaf o'r amser | 40 (25%) |
| Weithiau | 32 (20%) |
| Byth | 11 (7%) |
| Ddim yn berthnasol i mi | 43 (27%) |

**8.4 Pa mor hawdd neu anodd yw hi i'ch teulu a'ch ffrindiau gyrraedd yma?**

| | |
|---|---|
| Hawdd iawn | 14 (9%) |
| Eithaf hawdd | 61 (38%) |
| Eithaf anodd | 25 (15%) |
| Anodd iawn | 25 (15%) |
| Ddim yn gwybod | 16 (10%) |
| Ddim yn berthnasol i mi | 21 (13%) |

**8.5 Ydy'r staff yma wedi eich annog chi i gadw mewn cysylltiad â'ch teulu a'ch ffrindiau?**

| | |
|---|---|
| Ydyn | 53 (33%) |
| Na | 106 (67%) |

**8.6 Ydych chi wedi cael unrhyw broblemau wrth anfon neu dderbyn y pethau hyn?**

| | Do | Na |
|---|---|---|
| E-bost | 66 (45%) | 82 (55%) |
| Llythyrau | 61 (40%) | 92 (60%) |
| Parseli | 45 (35%) | 85 (65%) |

**8.7 Ydych chi'n gallu defnyddio'r ffôn bob dydd (os oes gennych chi gredyd)?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 139 (87%) |
| Na | 21 (13%) |

## Amser allan o'r gell

**9.1 Ydych chi'n gwybod beth yw'r amseroedd datgloi a chloi yma (neu amseroedd gwirio'r gofrestr os ydych chi mewn carchar agored)?**

| | |
|---|---|
| Ydw, a chadwir at yr amseroedd hyn fel arfer | 81 (50%) |
| Ydw, ond ni chadwir at yr amseroedd hyn fel arfer | 60 (37%) |
| Na | 21 (13%) |

**9.2 Faint o amser fyddwch chi'n ei dreulio allan o'ch cell bob dydd?**

| | Llai na 2 awr | 2-6 awr | 6-10 awr | 10 awr neu fwy | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Dydd Llun i ddydd Gwener | 70 (43%) | 42 (26%) | 25 (16%) | 5 (3%) | 19 (12%) |
| Dydd Sadwrn i Ddydd Sul | 73 (48%) | 52 (34%) | 12 (8%) | 0 (0%) | 16 (10%) |

**9.3 Sawl gwaith mewn wythnos arferol ydych chi'n gallu gwneud y pethau hyn?**

| | Dim | 1 neu 2 | 3-5 | Mwy na 5 | Ddim ar gael yma |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwblhau tasgau domestig | 25 (17%) | 40 (27%) | 31 (21%) | 46 (31%) | 7 (5%) |
| Cael cysylltiad | 7 (5%) | 26 (17%) | 35 (23%) | 84 (55%) | 2 (1%) |
| Ymarfer y tu allan | 11 (7%) | 39 (25%) | 43 (28%) | 57 (37%) | 3 (2%) |
| Mynd i'r gampfa neu gymryd rhan mewn chwaraeon | 27 (18%) | 75 (49%) | 30 (20%) | 13 (9%) | 7 (5%) |

**9.4 Ar y penwythnos, ydych chi'n gallu gwneud y pethau hyn?**

| | Ydw | Na |
|---|---|---|
| Cwblhau tasgau domestig | 99 (68%) | 47 (32%) |
| Cael cysylltiad | 140 (90%) | 15 (10%) |

| | | |
|---|---|---|
| Ymarfer y tu allan | 119 (80%) | 29 (20%) |
| Mynd i'r gampfa neu gymryd rhan mewn chwaraeon | 75 (52%) | 69 (48%) |

**9.5 Sawl gwaith mewn wythnos arferol ydych chi'n gallu gwneud y pethau hyn?**

| | Byth | Llai nag unwaith yr wythnos | Tua unwaith yr wythnos | Dwywaith yr wythnos neu fwy |
|---|---|---|---|---|
| Ymweld â'r llyfrgell | 45 (29%) | 26 (17%) | 74 (48%) | 10 (6%) |
| Benthyg eitemau llyfrgell a gedwir ar yr adain | 57 (39%) | 19 (13%) | 52 (35%) | 20 (14%) |
| Danfon pethau o'r llyfrgell i'r adain | 55 (37%) | 25 (17%) | 52 (35%) | 15 (10%) |

**9.6 A oes gan y llyfrgell ystod ddigon eang o ddeunyddiau i ddiwallu eich anghenion?**

Oes.................................................................................. 49 (31%)
Na..................................................................................... 57 (36%)
Nid wyf yn defnyddio'r llyfrgell .................................................. 52 (33%)

**Ceisiadau, cwynion a hawliau cyfreithiol**

**10.1 Ydy hi'n hawdd i chi wneud cais?**

Ydy ............................................................................ 100 (61%)
Na............................................................................... 47 (29%)
Ddim yn gwybod............................................................. 17 (10%)

**10.2 Os ydych chi wedi gwneud unrhyw geisiadau yma, a ddelir â nhw fel arfer:**

| | Gwneir | Na | Heb wneud unrhyw geisiadau |
|---|---|---|---|
| Yn deg? | 70 (46%) | 62 (41%) | 19 (13%) |
| Cyn pen 7 diwrnod? | 67 (48%) | 55 (39%) | 19 (13%) |

**10.3 Ydy hi'n hawdd i chi wneud cwyn?**

Ydy ............................................................................ 82 (52%)
Na............................................................................... 42 (27%)
Ddim yn gwybod............................................................. 34 (22%)

**10.4 Os ydych chi wedi gwneud unrhyw gwynion yma, a ddelir â nhw fel arfer:**

| | Gwneir | Na | Heb wneud unrhyw gwynion |
|---|---|---|---|
| Yn deg? | 36 (23%) | 49 (31%) | 71 (46%) |
| Cyn pen 7 diwrnod? | 34 (23%) | 43 (29%) | 71 (48%) |

**10.5 Ydych chi erioed wedi cael eich atal rhag cwyno yma pan oeddech chi eisiau gwneud hynny?**

Do............................................................................... 32 (21%)
Na............................................................................... 60 (39%)
Nid wyf wedi bod eisiau nac angen gwneud cwyn...................... 63 (41%)

**10.6 Ydych chi'n gwybod sut i gysylltu â'r sefydliadau hyn?**

| | Ydw | Na | Ddim yn gwybod pwy ydyn nhw |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymchwiliadau Annibynnol i Gwynion Carcharorion | 53 (34%) | 69 (44%) | 36 (23%) |
| Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) | 67 (43%) | 57 (37%) | 32 (21%) |

**10.7 Yn y carchar hwn, ydy hi'n hawdd neu'n anodd i chi wneud y pethau hyn:**

| | Hawdd | Anodd | Ddim yn gwybod | Nid wyf angen hyn |
|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu gyda'ch cyfreithiwr neu gynrychiolydd cyfreithiol | 61 (38%) | 68 (43%) | 24 (15%) | 6 (4%) |
| Mynychu ymweliadau cyfreithiol | 84 (54%) | 43 (28%) | 23 (15%) | 6 (4%) |

**10.8 Os yw'r staff yma erioed wedi agor llythyrau gan eich twrnai neu eich cynrychiolydd cyfreithiol pan nad oeddech chi'n bresennol, a eglurwyd i chi pam?**

Do........................................................................................ 27 (18%)
Na........................................................................................ 78 (51%)
Ni agorwyd unrhyw lythyrau cyfreithiol ...................................... 49 (32%)

## Gofal iechyd

**11.1 Ers cyrraedd y carchar hwn, ydych chi wedi cael unrhyw oedi wrth gael y pethau hyn?**

| | Do | Na | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| Eich meddyginiaeth | 86 (55%) | 44 (28%) | 26 (17%) |
| Eich apwyntiadau meddygol y tu allan | 54 (35%) | 51 (33%) | 49 (32%) |
| Eich pecyn gofal cymdeithasol y cytunwyd arno | 44 (29%) | 52 (34%) | 55 (36%) |

**11.2 Pa mor hawdd neu anodd yw gweld y bobl hyn?**

| | Hawdd iawn | Eithaf hawdd | Eithaf anodd | Anodd iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Doctor | 11 (7%) | 33 (21%) | 44 (28%) | 58 (36%) | 13 (8%) |
| Nyrs | 35 (22%) | 61 (39%) | 26 (17%) | 24 (15%) | 10 (6%) |
| Deintydd | 4 (3%) | 19 (12%) | 39 (25%) | 69 (44%) | 27 (17%) |
| Fferyllydd | 22 (14%) | 38 (25%) | 31 (20%) | 35 (23%) | 29 (19%) |
| Gweithwyr iechyd meddwl | 11 (7%) | 36 (23%) | 33 (21%) | 48 (31%) | 29 (18%) |
| Gweithwyr camddefnyddio sylweddau | 26 (17%) | 44 (28%) | 18 (11%) | 19 (12%) | 50 (32%) |

**11.3 Beth yw'ch barn chi am ansawdd cyffredinol y gwasanaethau iechyd a geir gan y bobl hyn?**

| | Da iawn | Eithaf da | Eithaf gwael | Gwael iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Doctor | 21 (13%) | 44 (28%) | 26 (17%) | 35 (22%) | 30 (19%) |
| Nyrs | 34 (22%) | 58 (37%) | 18 (12%) | 25 (16%) | 21 (13%) |
| Deintydd | 13 (8%) | 38 (25%) | 20 (13%) | 35 (23%) | 49 (32%) |
| Fferyllydd | 24 (15%) | 41 (26%) | 20 (13%) | 26 (17%) | 45 (29%) |
| Gweithwyr iechyd meddwl | 22 (14%) | 38 (24%) | 24 (15%) | 32 (20%) | 42 (27%) |
| Gweithwyr camddefnyddio sylweddau | 29 (18%) | 36 (23%) | 16 (10%) | 17 (11%) | 59 (38%) |

**11.4 Beth yw'ch barn chi am ansawdd cyffredinol y gwasanaethau iechyd sydd ar gael yma?**

Da iawn ............................................................................... 22 (14%)
Eithaf da ............................................................................. 42 (27%)

Eithaf gwael.......................................................................... 31 (20%)
Gwael iawn............................................................................ 50 (32%)
Ddim yn gwybod.................................................................... 10 (6%)

**11.5** **Os ydych chi i fod i gael eich rhyddhau yn y mis nesaf, ydych chi'n hyderus bod cynlluniau digonol i barhau â'ch gofal iechyd?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 14 (9%) |
| Na | 0 (0%) |
| Ddim yn gwybod | 0 (0%) |
| Ni fyddaf yn cael fy rhyddhau yn y mis nesaf/dim anghenion gofal iechyd | 137 (91%) |

**11.6** **Ydych chi'n gallu byw bywyd iach yma (mewn perthynas â'ch anghenion corfforol, meddyliol a dietegol a'ch lles emosiynol a chymdeithasol)?**

| | |
|---|---|
| Bob amser | 16 (10%) |
| Y rhan fwyaf o'r amser | 42 (27%) |
| Weithiau | 59 (37%) |
| Byth | 41 (26%) |

## Anghenion cymorth eraill

**12.1** **Ydych chi'n ystyried bod gennych chi anabledd (anghenion corfforol, meddyliol neu ddysgu tymor hir sy'n effeithio ar eich bywyd bob dydd)?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 77 (51%) |
| Na | 75 (49%) |

**12.2** **Os oes gennych chi anabledd, ydych chi'n cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 21 (14%) |
| Na | 51 (35%) |
| Dim anabledd | 75 (51%) |

**12.3** **Oes gennych chi unrhyw broblemau iechyd meddwl?**

| | |
|---|---|
| Oes | 108 (70%) |
| Na | 47 (30%) |

**12.4** **Ydych chi wedi cael help gyda'ch problemau iechyd meddwl yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Do | 38 (25%) |
| Na | 68 (44%) |
| Does gen i ddim problem iechyd meddwl | 47 (31%) |

**12.5** **A yw eich iechyd meddwl wedi gwella neu wedi gwaethygu ers cyrraedd y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Gwella | 17 (11%) |
| Gwaethygu | 88 (59%) |
| Dim gwahaniaeth | 45 (30%) |

## Alcohol a chyffuriau

**13.1** **A oes gennych broblem cyffuriau neu alcohol?**

| | |
|---|---|
| Oes | 56 (36%) |
| Na | 99 (64%) |

**13.2** **Os ydych chi wedi dweud wrth staff am eich problem gyffuriau neu alcohol, ydych chi wedi cael help i'w rheoli?**

| | |
|---|---|
| Do | 34 (22%) |
| Na | 16 (10%) |
| Heb ddweud wrth staff | 6 (4%) |

Nid oes gennyf broblem cyffuriau neu alcohol........................... 99 (64%)

**13.3 Os ydych chi wedi datblygu problem cyffuriau neu alcohol yn y carchar hwn (gan gynnwys meddyginiaeth nad yw wedi'i bresgripsiynu i chi), ydych chi wedi cael help i'w rheoli?**

| | |
|---|---|
| Do................................................................................. | 11 (7%) |
| Na................................................................................. | 15 (10%) |
| Heb ddatblygu problem gyffuriau neu alcohol yn y carchar hwn ....................................................................................... | 127 (83%) |

**13.4 Os ydych chi i fod i gael eich rhyddhau yn ystod y mis nesaf, ydych chi'n gwybod â phwy i gysylltu i gael cymorth gyda'ch problem gyffuriau neu alcohol pan fyddwch chi'n gadael y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Ydw ............................................................................... | 16 (10%) |
| Na................................................................................... | 2 (1%) |
| Nid oes gennyf broblem cyffuriau neu alcohol........................... | 99 (64%) |
| Ni fyddaf yn cael fy rhyddhau yn ystod y mis nesaf.................... | 37 (24%) |

**13.5 Yn y carchar hwn, ydy hi'n hawdd neu'n anodd cael y pethau hyn?**

| | Hawdd iawn | Eithaf hawdd | Eithaf anodd | Anodd iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyffuriau anghyfreithlon | 50 (33%) | 22 (14%) | 5 (3%) | 7 (5%) | 69 (45%) |
| Alcohol | 17 (11%) | 18 (12%) | 14 (9%) | 20 (13%) | 82 (54%) |
| Meddyginiaeth heb ei rhoi ar bresgripsiwn i chi | 44 (30%) | 19 (13%) | 5 (3%) | 10 (7%) | 71 (48%) |

## Diogelwch

**14.1 Ydych chi erioed wedi teimlo'n anniogel yma?**

| | |
|---|---|
| Do................................................................................... | 86 (54%) |
| Na................................................................................... | 73 (46%) |

**14.2 Ydych chi'n teimlo eich bod chi ddim yn ddiogel ar hyn o bryd?**

| | |
|---|---|
| Ydw ............................................................................... | 36 (24%) |
| Na................................................................................. | 115 (76%) |

**14.3 Fyddech chi'n ei riportio pe baech chi'n cael eich bwlio/erlid yn y carchar hwn gan:**

| | Byddwn | Na | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Carcharorion eraill? | 49 (34%) | 65 (45%) | 31 (21%) |
| Staff? | 66 (46%) | 52 (36%) | 27 (19%) |

**14.4 Ydych chi wedi cael eich bwlio/erlid yn y carchar hwn gan:**

| | Do | Na |
|---|---|---|
| Carcharorion eraill? | 48 (33%) | 98 (67%) |
| Staff? | 58 (40%) | 88 (60%) |

**14.5 Os ydych chi, pa rai o'r mathau hyn o fwlio/erledigaeth gan garcharorion eraill neu staff a brofwyd gennych?** *(Ticiwch bob un sy'n berthnasol)*

| | Gan garcharorion | Gan staff |
|---|---|---|
| Cam-drin geiriol | 33 (23%) | 44 (30%) |
| Bygythiadau neu frawychu | 34 (23%) | 36 (25%) |
| Ymosodiad corfforol | 22 (15%) | 19 (13%) |

| | | |
|---|---|---|
| Ymosodiad rhywiol | 4 (3%) | 7 (5%) |
| Lladrad cantîn neu eiddo | 23 (16%) | 15 (10%) |
| Bwlio/erledigaeth arall | 20 (14%) | 31 (21%) |

## Rheoli ymddygiad

**15.1 Ydy'r carchar hwn yn:**

| | Ydy | Na | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Gwobrwyo ymddygiad da yn deg? | 42 (28%) | 70 (46%) | 39 (26%) |
| Delio ag ymddygiad gwael yn deg? | 43 (29%) | 58 (39%) | 49 (33%) |

**15.2 A oes cyfleoedd a gwobrau i gymell pobl yn y carchar hwn?**

Oes.......... 50 (33%)
Na.......... 63 (42%)
Ddim yn gwybod.......... 37 (25%)

**15.3 Ydy'r cyfleoedd a'r gwobrau hyn yn eich cymell i ymddwyn yn dda?**

Ydyn.......... 46 (53%)
Na.......... 4 (5%)
Ddim yn gwybod pa gyfleoedd a gwobrau sydd ar gael.......... 37 (43%)

**15.4 Ydych chi'n meddwl bod y diwylliant yn y carchar hwn yn annog carcharorion i ymddwyn yn dda?**

Ydw.......... 40 (27%)
Na.......... 70 (47%)
Ddim yn gwybod.......... 39 (26%)

**15.5 Os ydych chi wedi cael eich atal yn gorfforol gan staff yn y carchar hwn yn ystod y 6 mis diwethaf, a ddaeth unrhyw un i siarad â chi am y peth wedyn?**

Do.......... 8 (5%)
Na.......... 29 (19%)
Ddim yn cofio.......... 4 (3%)
Heb gael fy atal yn gorfforol yma yn y 6 mis diwethaf.......... 108 (72%)

**15.6 Os ydych chi wedi treulio un noson neu fwy yn yr uned wahanu yn y carchar hwn yn y 6 mis diwethaf:**

| | Oeddwn | Na | Heb fod yn yr uned wahanu |
|---|---|---|---|
| Oeddech chi'n cael eich trin yn dda gan staff gwahanu? | 14 (10%) | 22 (15%) | 109 (75%) |
| Oeddech chi'n gallu cael cawod bob dydd? | 19 (13%) | 16 (11%) | 109 (76%) |
| Allech chi fynd allan i wneud ymarfer corff bob dydd? | 12 (8%) | 22 (15%) | 109 (76%) |
| Allech chi ddefnyddio'r ffôn bob dydd (os oedd gennych chi gredyd)? | 13 (9%) | 21 (15%) | 109 (76%) |

## Addysg, sgiliau a gwaith

**16.1 Ydych chi wedi cael cymorth gydag anghenion darllen yn y carchar hwn (gallai hyn gynnwys staff addysg neu staff yr adain, cymorth gan gymheiriaid neu unrhyw un arall)?**

Do.......... 44 (29%)
Na.......... 36 (24%)
Ddim angen cefnogaeth gydag anghenion darllen.......... 70 (47%)

**16.2 Oes gennych chi unrhyw anawsterau dysgu (dyslecsia neu unrhyw gyflyrau eraill sy'n effeithio ar eich dysgu)?**

Oes................................................................................................ 55 (36%)
Na.................................................................................................. 96 (64%)

**16.3 Ydych chi wedi cael cymorth a chefnogaeth gan staff addysg ar gyfer eich anawsterau dysgu?**

| | |
|---|---|
| Do | 19 (13%) |
| Na | 34 (23%) |
| Dim anawsterau dysgu | 96 (64%) |

**16.4 Os ydych chi wedi gwneud unrhyw un o'r gweithgareddau hyn yn y carchar hwn, ydych chi'n meddwl y byddan nhw'n eich helpu chi ar ôl cael eich rhyddhau?**

| | Ydw, byddant yn helpu | Nac ydw, ni fyddant yn helpu | Heb wneud hyn |
|---|---|---|---|
| Addysg | 68 (48%) | 38 (27%) | 35 (25%) |
| Hyfforddiant galwedigaethol neu sgiliau | 61 (44%) | 30 (21%) | 49 (35%) |
| Swydd yn y carchar | 59 (41%) | 49 (34%) | 37 (26%) |
| Gwaith y tu allan i'r carchar | 45 (32%) | 27 (19%) | 69 (49%) |

**16.5 A yw'r carchar wedi eich dyrannu i'r addysg, yr hyfforddiant neu'r gwaith a fydd yn eich helpu pan gewch eich rhyddhau?**

| | |
|---|---|
| Do | 47 (32%) |
| Na | 66 (45%) |
| Ddim yn berthnasol | 33 (23%) |

**16.6 Ydy'r staff yn eich annog i fynychu addysg, hyfforddiant neu waith?**

| | |
|---|---|
| Ydyn | 75 (50%) |
| Na | 61 (41%) |
| Ddim yn berthnasol | 13 (9%) |

## Cynllun dedfryd

**17.1 Oes gennych chi gynllun dedfryd?**

| | |
|---|---|
| Oes | 17 (11%) |
| Na | 44 (28%) |
| Heb fy nedfrydu | 98 (62%) |

**17.2 Atebwch y cwestiynau canlynol am eich cynllun dedfryd:**

| | Ie | Na | Ddim yn gwybod beth yw fy amcanion neu fy nhargedau |
|---|---|---|---|
| Ydych chi'n deall beth mae angen i chi ei wneud i gyflawni'ch amcanion neu'ch targedau? | 13 (81%) | 1 (6%) | 2 (13%) |
| Ydy'r staff yma yn eich helpu i gyflawni eich amcanion neu'ch targedau? | 10 (67%) | 3 (20%) | 2 (13%) |
| Ydych chi wedi bod yn rhan o'r gwaith o bennu yr amcanion neu'r targedau? | 9 (60%) | 4 (27%) | 2 (13%) |

## Dychwelyd i'r gymuned

**18.1 Ydych chi'n disgwyl cael eich rhyddhau yn y 3 mis nesaf?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 54 (35%) |
| Na | 61 (40%) |
| Ddim yn gwybod | 39 (25%) |

**18.2 Pa mor agos yw'r carchar hwn at ardal eich cartref neu'r cyfeiriad y byddwch yn cael eich rhyddhau iddo?**

| | |
|---|---|
| Agos iawn | 13 (25%) |
| Yn eithaf agos | 29 (55%) |
| Eithaf pell | 7 (13%) |
| Yn bell iawn | 4 (8%) |

**18.3 A oes unrhyw un yn eich helpu i baratoi ar gyfer eich rhyddhau (pobl fel Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar neu yn y Gymuned)?**

| | |
|---|---|
| Oes | 22 (43%) |
| Na | 29 (57%) |

**18.4 Ydych chi'n cael help i gael trefn ar y pethau hyn pan fyddwch yn cael eich rhyddhau?**

| | Ydw, rydw i'n cael help gyda hyn | Nac ydw, ond mae angen help arnaf gyda hyn | Na, a does dim angen help arnaf gyda hyn |
|---|---|---|---|
| Dod o hyd i lety | 8 (15%) | 30 (58%) | 14 (27%) |
| Cael gwaith | 9 (18%) | 21 (41%) | 21 (41%) |
| Cael trefn ar fudd-daliadau | 9 (18%) | 32 (63%) | 10 (20%) |
| Arian a dyledion | 3 (6%) | 29 (57%) | 19 (37%) |
| Agor cyfrif banc | 7 (14%) | 20 (39%) | 24 (47%) |
| Cael ID llun | 4 (8%) | 26 (52%) | 20 (40%) |

## Mwy amdanoch chi

**19.1 Oes gennych chi blant o dan 18 oed?**

| | |
|---|---|
| Oes | 89 (58%) |
| Na | 65 (42%) |

**19.2 Ydych chi'n ddinesydd Prydeinig/y DU?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 137 (88%) |
| Na | 18 (12%) |

**19.3 Ydych chi erioed wedi bod mewn gofal awdurdod lleol (ydych chi wedi byw gyda rhieni maeth neu mewn cartref plant, neu wedi cael gweithiwr cymdeithasol, pan oeddech chi o dan 18 oed)?**

| | |
|---|---|
| Do | 37 (24%) |
| Na | 116 (76%) |

**19.4 Ydych chi erioed wedi bod yn y lluoedd arfog (y fyddin, y llynges, y llu awyr)?**

| | |
|---|---|
| Do | 9 (6%) |
| Na | 143 (94%) |

**19.5 Beth yw eich rhywedd?**

| | |
|---|---|
| Gwryw | 148 (97%) |
| Benyw | 2 (1%) |
| Anneuaidd | 0 (0%) |
| Arall | 2 (1%) |

**19.6 Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson trawsryweddol neu drawsrywiol?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 2 (1%) |

Na...................................................................................... 150 (99%)

**19.7 Sut byddech chi'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol?**

| | |
|---|---|
| Heterorywiol/Strêt | 149 (97%) |
| Hoyw/lesbiaidd/heterorywiol | 1 (1%) |
| Deurywiol | 3 (2%) |
| Arall | 1 (1%) |

## Cwestiynau olaf am y carchar hwn

**20.1 Ydych chi'n meddwl bod eich profiadau yn y carchar hwn wedi eich gwneud chi'n fwy neu'n llai tebygol o droseddu yn y dyfodol?**

| | |
|---|---|
| Yn fwy tebygol o droseddu | 20 (13%) |
| Llai tebygol o droseddu | 73 (49%) |
| Heb wneud dim gwahaniaeth | 57 (38%) |